IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD
14/09/2026

Yn bresennol: Cynghorydd Hugh Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr:
Craig ab Iago (Cyngor Gwynedd), Richard Jones (Cyngor Sir y Fflint), Chris Cater (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), ac Ifor Glyn Lloyd (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

Prif Swyddogion:
James Harland (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Dewi Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Paul Mead (Cyngor Sir Ddinbych), Gareth Jones (Cyngor Gwynedd) a Keira Sweeney (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

Swyddogion yn bresennol:

Alwen Williams (Prif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd), Mark Watkins (Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro), Helen Edwards (Dirprwy Swyddog Monitro), Andy Roberts (Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol), Sian Pugh (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid – Cyngor Gwynedd), Ffion Haf Williams (Uwch Swyddog Gweithrediadau), Elen Wyn Owen (Swyddog Cymorth Corfforaethol), Gwen Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Cyngor Gwynedd), a Sera Whitley (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Cyngor Gwynedd).

Eraill yn bresennol:

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

- Cynghorydd Nicola Roberts (Cyngor Sir Ynys Môn) (Cadeirydd)
- Dewi Morgan (Prif Swyddog Cyllid)

Nodwyd nad oedd Alan James (Cyngor Sir Ddinbych) bellach yn Aelod o Is-bwyllgor Cynllunio Strategol y Cyd-bwyllgor o ganlyniad i newidiadau diweddar i Gabinet Cyngor Sir Ddinbych. Adroddwyd bod Paul Mead yn bresennol i gynrychioli Cyngor Sir Ddinbych.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 2026 fel cofnod cywir.

5. ADRODDIAD - DIWEDDARIAD AR Y CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol.

PENDERFYNWYD

Nodi cynnwys yr adroddiad.

Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Darparu diweddariad i'r Aelodau ar y sefyllfa gyfredol gyda'r Cynllun Datblygu Strategol.

TRAFODAETH

Nodwyd nad oedd cworwm yn yr Is-bwyllgor ar yr adeg y dechreuodd y drafodaeth.

Cyflwynwyd yr adroddiad, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd gyda'r Cynllun Datblygu Strategol (CDS). Atgoffwyd yr Aelodau fod Blaenraglen Waith wedi'i gosod ar gyfer y flwyddyn yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 2026, a nodwyd pum pwnc allweddol fel rhan o'r Flaenraglen Waith honno. Un o'r pynciau allweddol hynny oedd casglu tystiolaeth am y Cynllun Datblygu Strategol.

Nodwyd bod yr adroddiad hwn yn cynnwys archwiliad tystiolaeth a gynhaliwyd gan ARUP, a gomisiynwyd i ymgymryd â'r gwaith ar ran y Cyd-bwyllgor. Eglurwyd bod gan bob awdurdod lleol sylfaen dystiolaeth i gefnogi eu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), ac mai egwyddor gyntaf yr archwiliad tystiolaeth oedd edrych ar ba mor ddefnyddiol a pha mor gyfredol oedd y wybodaeth honno. Ail egwyddor yr archwiliad tystiolaeth oedd cynnal dadansoddiad bwlch er mwyn nodi argymhellion a meysydd gwaith at y dyfodol.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod adroddiad drafft yr archwiliad tystiolaeth wedi'i dderbyn ar ôl cyhoeddi'r agenda ar gyfer y cyfarfod hwn. Esboniwyd y byddai'r adroddiad archwilio tystiolaeth drafft yn cael ei rannu â rheolwyr polisi ac uwch reolwyr o fewn yr awdurdodau lleol i sicrhau cydweithrediad agos wrth ddatblygu'r CDS. Ymhellach, byddai hefyd yn rhoi cyfle i awdurdodau lleol adnabod unrhyw fudd posib neu orgyffwrdd gyda gwaith tebyg oedd yn cael ei gynllunio fel rhan o'u CDLl.

Esboniwyd ymhellach bod yr atodiad i'r adroddiad yn rhoi syniad o dueddiadau cyffredinol a welwyd o'r dadansoddiad cynnar o'r dystiolaeth, a thynnwyd sylw penodol at y gydberthynas amlwg rhwng cyflogaeth, tai a seilwaith trafnidiaeth strategol.

Gofynnwyd am ddiffiniad eglur o 'strategol', ac esboniwyd nad oedd diffiniad penodol ar hyn o bryd gan y byddai gwahanol drothwyon ar draws pob awdurdod yn y Gogledd. Pwysleisiwyd y byddai'r diffiniad yn debygol o ddod i'r amlwg o'r archwiliad tystiolaeth gan y byddai'n canolbwyntio ar amrediad, graddfa a chwmpas y dyraniadau a wnaed gan bob awdurdod lleol.

Cwestiynwyd a fyddai rhai pynciau penodol megis tai fforddiadwy, ffosffadau, manwerthu, rhwydweithiau rheilffyrdd, seilwaith gwyrdd, perygl llifogydd, a safonau parcio yn cyd-fynd â'r dystiolaeth a gasglwyd. Esboniwyd y byddai'r holl bynciau hyn yn cael eu cynnwys o dan benawdau eithaf cyffredinol, ac nad oeddynt yn unigryw i'r CDS. Pwysleisiwyd bod yr adroddiad tystiolaeth yn debygol o nodi pynciau, fel y rhai uchod, a fyddai'n gofyn am gyfarwyddyd polisi ar lefel strategol.

Ar ôl i un o Aelodau'r Is-bwyllgor gyrraedd yn hwyr, cadarnhawyd bod cworwm bellach yn y cyfarfod. Darparwyd crynodeb o'r eitem gan y Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol er budd yr Aelod oedd wedi cyrraedd yn hwyr, a rhoddwyd cadarnhad i'r Cadeirydd bod ganddynt ddealltwriaeth ddigonol o'r eitem yn dilyn y crynodeb.

Codwyd pryderon ynglŷn â gwersylloedd anghyfreithlon y gymuned sipsiwn a theithwyr, a thynnwyd sylw at y ffaith ei bod yn broblem strategol yn hytrach na phroblem leol. Nodwyd y gallai'r mater hwn arwain at greu rhaniad o fewn cymunedau a bod angen i'r polisi ddal i fyny â'r galw.

Ymhelaethwyd bod yr holl Awdurdodau Cynllunio Lleol a'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi'u gwahodd gan bwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio Llywodraeth Cymru, drwy CLlLC, i wneud awgrymiadau ac argymhellion ar gyfer llunio'u Blaengynlluniau Gwaith. Gwnaed cyflwyniad ar ran Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn nodi bod angen ffyrdd mwy arloesol o ddarparu tai fforddiadwy, a bod angen asesiad sylfaenol ar lefel strategol o'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer sipsiwn a theithwyr.

Codwyd mater pellach ynglŷn â'r amser a gymerid gan unigolion i adael gwersylloedd anghyfreithlon, gan nodi y gallai'r holl broses gymryd hyd at bedair blynedd. Tynnwyd sylw at y ffaith bod angen system gyflym i ymdrin yn fwy difrifol â gwersylloedd anghyfreithlon, ynghyd ag adolygiad cyflawn o'r broses ddeddfwriaethol. Nodwyd y byddai'r broses CDS yn caniatáu i'r cwestiynau a'r pryderon hyn gael eu codi ar lefel strategol a chyson, gan arwain at ddatblygu polisi a chanllawiau ystyrlon ar lefel strategol.

6. Y BERTHYNAS RHWNG Y CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL A CHYNLLUNIAU DATBLYGU LLEOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol.

PENDERFYNWYD

Nodi cynnwys yr adroddiad.

Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cynorthwyo Aelodau i ddeall safbwyntiau perthnasol y Cynllun Datblygu Strategol a'u Cynlluniau Datblygu Lleol.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad, gan dynnu sylw at sefyllfa bresennol Cyngor Sir Ddinbych gyda'u Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Adroddwyd y bu Cyngor Sir Ddinbych yn datblygu adolygiad o'u CDLl, a effeithiwyd gan ragamcanion tai newydd Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn gynharach yn y flwyddyn. Esboniwyd bod y tueddiadau a ddangoswyd gan ragamcanion Llywodraeth Cymru yn sylweddol uwch na'r gofyniad tai a nodwyd ar hyn o bryd yn adolygiad CDLl Sir Ddinbych.

Yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru, esboniwyd bod angen i Gyngor Sir Ddinbych gynnal trafodaethau mewnol i benderfynu naill ai i symud ymlaen â'u hadolygiad presennol neu, fel yr awgrymwyd gan Lywodraeth Cymru, i ailgychwyn eu hadolygiad. Ymhelaethwyd bod gweithdy wedi'i gynllunio yn Sir Ddinbych i drafod y berthynas rhwng y

Cynllun Datblygu Strategol a'r angen posibl i Sir Ddinbych ailgychwyn eu Cynllun Datblygu Lleol. Nodwyd bod nifer o gwestiynau wedi'u llunio er mwyn ceisio llywio'r gweithdy hwn, a gellir gweld y cwestiynau hyn yn yr atodiad i'r adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r berthynas rhwng y CDS a'r CDLl, eglurwyd ei bod yn ddyletswydd statudol i'r Cyd-bwyllgor gynhyrchu'r CDS ac yn yr un modd mae'n ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i gynhyrchu CDLl. Pwysleisiwyd mai'r bwriad oedd cynhyrchu'r CDS ochr yn ochr â'r Cynlluniau Datblygu Lleol, yn enwedig ar gyfer rhan gynnar cyfnod 25-mlynedd y CDS, er mwyn adlewyrchu cynnwys y Cynlluniau Datblygu Lleol newydd sy'n cael eu mabwysiadau a'u datblygu, er mwyn lleihau unrhyw wrthdaro posibl.

Rhoddwyd diweddariad ynglŷn â chynnydd diweddaraf rhai o'r awdurdodau lleol gyda'u CDLl, a chadarnhawyd bod lefel gref o aliniad gyda'r CDS gan yr awdurdodau lleol yn y gogledd ddwyrain. Nodwyd bod rhai o'r awdurdodau lleol eraill ymhellach ymlaen yn y broses, a phwysleisiwyd bod y CDS yn ceisio alinio faint y gallai'r awdurdodau lleol gydweithio â'i gilydd, ond fod hyn dibynnu pa gam yr oeddynt wedi'i gyrraedd yn y broses.

Adroddwyd mai'r nod yw i'r CDS osod fframwaith sy'n darparu canllawiau ar gyfer datblygiad hirdymor y CDLl, gan gefnogi'r uchelgais strategol trwy dwf economaidd parhaus. Nodwyd, unwaith y byddai CDS wedi'i fabwysiadu, byddai'n rhoi cyfle i awdurdodau lleol ddefnyddio cyd-destun y CDS a chynhyrchu CDLl sy'n ymdrin â materion lleol penodol.

Gofynnwyd cwestiwn ynghylch a fyddai datblygwyr yn gallu defnyddio polisi'r CDS i ddadlau bod rhai datblygiadau yn briodol yn yr ardal leol pe bai'r CDS yn cael ei fabwysiadu ar lefel awdurdod lleol. Cadarnhawyd, petai safle strategol wedi'i nodi'n benodol â ffin llinell goch o fewn y CDS, wedi mynd trwy'r broses archwilio, ac wedi'i fabwysiadu gyda'r CDS, yna gallai datblygwr ddefnyddio polisi'r CDS i ddadlau bod datblygiad yn briodol. Fodd bynnag, petai penderfyniad i ddefnyddio dull nad yw'n adnabod safleoedd penodol, byddai'r broses o adnabod safleoedd yn fwy amwys a generig i ddatblygwyr.

Cadarnhawyd ymhellach fod y ffigwr darpariaeth tai o 46,000 o anheddau a ddyrannwyd ar draws y Gogledd, fel y nodwyd yn yr adolygiad, yn cynnwys y niferoedd yn y saith CDLl presennol a datblygol. Nodwyd bod y ffigwr hwn yn is na'r hyn a ddisgwylir yn genedlaethol o ran darpariaeth tai.

Cwestiynwyd sut y byddai'r gwahanol lefelau o ddatblygiadau ar draws yr awdurdodau lleol, a'r gwahanol gamau cynnydd, yn cael eu hasesu. Cadarnhawyd bod yr archwiliad tystiolaeth yn ceisio dod ag asedau pob awdurdod lleol ynghyd, ac yn dilyn hyn, byddai'r gwahanol amserlenni yn cael eu hasesu cyn i'r ymgynghorwyr gynhyrchu cyfres o argymhellion ar gyfer gwaith pellach. Nodwyd y byddai canllawiau pendant gan Lywodraeth Cymru yn ddefnyddiol.

Nodwyd pryder ynghylch ARUP yn gwneud cyfran mor fawr o'r gwaith ar ran y Cyd-bwyllgor. Esboniwyd y byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol graffu a chynghori yn unol â hynny, sicrhau gwerth am arian, a sicrhau bod ARUP yn ymgymryd â gwaith ystyrlon ar ran y Gogledd. Ymhelaethwyd bod gan ARUP yr adnoddau i ymgymryd â'r gwaith yn gyflym a'r gallu i gwmpasu amrediad o wybodaeth wrth gasglu tystiolaeth. Nodwyd hefyd bod ARUP

wedi cynhyrchu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer y Cyd-bwyllgor a bod llawer o orgyffwrdd â pholisïau presennol.

Dechreuodd y cyfarfod am 14:10 a daeth i ben am 15:00.

_____

Cadeirydd